CYNGOR TREF LAMPETER
COFNODION CYFARFOD CYNGOR LLAWN
DYDD IAU 11EG O IONAWR 2018 @ 7.30pm
YN FESTRI SHILOH LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO'R CADEIRYDD.

Croesawodd Y Maer /Cadeirydd Y Cyngh. Hag Harris bawb i'r Cyfarfod. Pwysleisiwyd mai nid Cyfarfod Cyhoeddus oedd, i drafod y Cais Cynllunio A171092, ond yn hytrach Cyfarfod Cyngor Tref ar agor (fel arfer) i'r Cyhoedd. Soniodd y Cadeirydd am y 5 sedd wag sy'n bodoli ar y Cyngor Tref a gwnaeth apêl am ddatganiadau o ddiddordeb.

YN BRESENNOL
Y Maer Y Cyngh. Hag Harris; **Y Dirprwy-Faer** Ann B. Morgan;
Cynghorwyr Tref: Elin T. Jones; Rhys B. Jones; Dinah Mulholland; Robert Phillips; Kistiah Ramaya; David Smith; Christopher Thomas.
Cyflwyniad ynghylch y Cais Cynllunio A171092: Mr John Crowther & Helen Thomas.
Aelodau'r Cyhoedd ynghylch Cais Cynllunio A171092 (penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol i beidio â chofnodi enwau unigol y rhai sy'n bresennol ond yn hytrach, dim ond y rhai a wneir cyflwyniad)
Archwilydd Mewnol Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Mr Derek Marshall.

2. YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyngh. Selwyn Walters.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL – Ni ddatgelwyd fuddiant personol.

4. CAIS CYNLLUNIO CYNGOR SIR CEREDIGION (CSC)
A171092: Cynnig: Dymchwel Adeiladau Ysgol a chodi 21 anheddau preswyl fforddiadwy â pharcio, tirlunio a gwaith atodol cysylltiedig.
Lleoliad: Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, Heol Bryn, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7EF.

Derbyniwyd y Cais Cynllunio uchod gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae gwneud penderfyniad parthed Ceisiadau Cynllunio gan GSC yn broses lled-farnwrol a rheolau deddfwriaeth llymach mewn lle wrth gymharu â nifer o benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC. Gwahoddwyd sylwadau gan yr Ymgynghoreion, er enghraifft, Adnoddau Naturiol Cymru a'r Cyngor Tref; nid oedd gan y Cyngor Tref yr awdurdod i ddatrys y mater dan sylw ond gallai gyfrannu i'r Ymgynghoriad.
Dyddiad cau'r Ymgynghoriad: Dydd Mercher, 24 Ionawr 2018.

Disgwylir i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC drafod y Cais uchod ar ddydd Mercher 14eg Chwefror 2018 ac ymddangosir ar wefan CSC gydag

argymhellion y Swyddogion Cynllunio.

Anogwyd aelodau'r cyhoedd i ysgrifennu'n unigol i GSC yn mynegi eu pryderon.

Roedd rhai aelodau o'r Cyngor Tref wedi ymateb yn ystod y Cyfnod Cyn-Cyflwyno Cais.
Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr John Crowther a Helen Thomas **(Atodiad 1)**
Gwrthwynebiadau Allweddol **(Atodiad 2)**

Ar derfyn y Cyflwyniad a'r ddeialog â'r rai presennol, roedd aelodau'r cyhoedd yn unfrydol yn eu gwrthwynebiad i'r Datblygiad hwn o dan yr amodau sy'n bodoli ar hyn o bryd.
Amlygwyd gwerth yr adeilad brics coch, o safbwynt treftadaeth y dref.
Dywedwyd mai nid pobl Llambed yn unig a'u heffeithir, pe bai'r Cais yn mynd ymlaen, ond hefyd y rhai o'r cefnwlad.

Ar ôl gwrando ar leisiau'r cyhoedd yn ystod y cyfarfod a thrafod yn ofalus, pleidleisiodd y Cyngor Tref yn unfrydol i *wrthwynebu'r* Cais a chyflwyno sylwadau i GSC. **(Atodiad 3)**

5. Y PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF
PENNU'R PRAESEPT (Y DRETH A HAWLIR GAN Y CYNGOR TREF) AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF (EBRILL 2018-MAWRTH 2019)
Trafodwyd Adroddiad y Gyllideb (ynghlwm) yn fanwl.

Ar ôl grym drafodaeth **PENDERFYNWYD** yn unfrydol (Cynigydd: y Cynghorydd Robert Phillips: Eilydd y Cynghorydd Kistiah Ramaya) y byddai'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol h.y. **£41,000** oherwydd:

- Yr hinsawdd economaidd bresennol;
- Haelioni praeseptau gorffennol oherwydd gostyngiadau mewn Costau Camerau Teledi Cylch Cyfyng &
- Lefel uchel o gronfeydd wrth gefn gan y Cyngor Tref.

Mae'r £41,000 yn cynrychioli taliad blynyddol o £43.46 neu 84 ceiniog yr wythnos ar gyfer Treth-Dalwr y Cyngor Band D. Canran fechan cyfanswm y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yw'r Praesept e.e. Yn y Flwyddyn 2017-18, byddai Treth-Dalwr y Cyngor Band D wedi talu £1,168.81 i'r Cyngor Sir; £213.63 i'r Heddlu Dyfed-Powys a £43.46 i'r Cyngor Tref: Cyfanswm £1,425.90 *

Roedd aelodau o'r farn y gellid cwrdd â chostau cyfredol o fewn y gyllideb hon. Gellid ymwneud â thaliadau pellach o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r ffaith bod y Praesept wedi aros yr un fath neu wedi gostwng yn ystod y 13 mlynedd diwethaf yn deyrnged i'r ffordd ofalus y mae'r Cyngor Tref wedi ymdrin ag

arian y cyhoedd.

Ystyriwyd y cronfeydd wrth gefn (ffigwr amcanol ar yr 31/03/2018, tua £116,500). Adroddwyd y gallai Cyngor y Dref wynebu her ariannol yn y dyfodol, gan fod y DU yn wynebu toriadau gwariant cyhoeddus difrifol. Gallai'r cronfeydd wrth gefn gynorthwyo â phrosiectau, a fyddai'n golygu gwariant ychwanegol, i'r swm a godwyd o fewn y Praesept er enghraifft Ardal Chwarae Maesyfelin; Offer Chwarae ym Mharc-yr-Orsedd; Gardd Goffa'r Rhyfel; Arddangosfa Flodau'r Dref dros yr Haf; Sgwâr Harford. Dywedwyd y dylai'r Cyngor Tref lunio cyllideb ar gyfer ei weithgareddau rheolaidd o fewn y flwyddyn a'u bod yn fforddiadwy.

Penderfynwyd ail-fuddsoddi £70,000 o fewn Bond Banc Lloyds (cyfnod buddsoddi 12 mis yn dod i ben ar 24 Ionawr 2018) (buddsoddwyd £78,000 am y 12 mis diwethaf, 0.9% llog)

Materion eraill a ystyriwyd:

Lwfans y Maer
Cytunwyd yng Nghyfarfod Cyllideb Ionawr 2010 i gynyddu Lwfans y Maer 1.5% yn flynyddol. Awgrymwyd y dylid ei gynyddu yn unol â chwyddiant.

Lwfans Aelodau
Disgwylir y bydd Cynghorwyr Tref / Cymuned yn derbyn Lwfans Blynyddol yn y dyfodol.

Cyflog y Clerc
Cytunwyd yng Nghyfarfod Cyllideb Ionawr 2010 y byddai'r Clerc yn derbyn Ychwanegiad blynyddol-un gris yn ôl canllawiau NALC, (ond ychwanegiad o ystyried chwyddiant heb fod ar gynnig). Holodd y Cadeirydd am ba hyd, a fyddai'r Ychwanegiad Blynyddol yn debygol o barhau. Ystyriwyd hefyd obligiadau'r Rheoleiddiwr Pensiwn.

Y Gronfa Suddo
Gellid gosod mewn lle Gronfa Suddo i gwrdd â chostau atgyweiriadau / adnewyddu asedau sefydlog.

Gofynnodd Mr Derek Marshall tybed a fyddai ei swydd fel Archwilydd Mewnol yn un barhaus gydol y flwyddyn neu wedi'i gyfyngu i'r Archwiliad Blynyddol, petai'r Cyngor Tref am ei wasanaeth. Hysbysir cyn bo hir.

Pwysleisiodd Mr Marshall bwysigrwydd cadw derbynebau am daliadau.

6. Adnewyddu Polisi Yswiriant Zurich Cyngor Tref
PENDERFYNWYD adnewyddu y flwyddyn derfynol y Cytundeb Hir-Dymor 3 blynedd sef £1,577.03.

7. UNRHYW FATER ARALL

7.1 Regalia Dinesig:

Roedd y Cyng David Smith wedi derbyn prisiadau ynglŷn â'r Regalia Dinesig a byddai'n anfon y manylion at sylw'r Clerc. Hysbysir Yswiriant Zurich o'r newidiadau

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.

8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Iau 25ain Ionawr 2018 am 7.30pm, Festri Shiloh, Llanbedr PS.

----------(Arwyddwyd- Cadeirydd Dyddiad)

**Ffigyrau wedi'u dyfynnu Cyngor Sir Ceredigion 2017-18. Gwybodaeth ar gyfer Trethdalwr y Cyngor.*